

Sul y Mamau / Sul y Tadau

Darllen: Mathew 23:37

Efallai bod y syniad o Dduw fel mam yn wrthun i rai ohonom. Rydyn ni wedi arfer cyfeirio at Dduw fel 'Ein Tad'. Byddai Julian o Norwich, cyfrinydd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn cyfeirio at Dduw fel mam, a'r rheswm am hynny oedd bod nodweddion mam yn perthyn iddo - cariad, ffeindrwydd, doethineb a daioni. I Julian, nodweddion mam oedd y rhain.

Oes gan y Beibl rywbeth i'w ddweud am hyn? Dim llawer, mae'n wir. Ond o graffu ar ambell adran efallai y gallwn weld rhai o'r nodweddion y cyfeiria Julian atyn nhw. Mae'r proffwyd Eseia'n dychmygu Jerwsalem yn galarnadu, 'Gwrthododd yr Arglwydd fi, ac anghofiodd fy Arglwydd fi' (Eseia 49:14). Ond ateb Duw yw, 'A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, neu fam blentyn ei chroth? Fe allant hwy anghofio, ond nid anghofiaf fi di' (Eseia 49:15). Mae cariad mam at ei phlentyn yn gryf, ond mae cariad Duw at ei bobl yn gryfach, yn anorchfygol ac yn parhau am byth. A dyma gyfeiriad arall at y fam yn Llyfr Eseia, 'Fel y cysurir plentyn gan ei fam, byddaf fi'n eich cysuro chwi; ac yn Jerwsalem y'ch cysurir' (Eseia 66:13). Pan fydd plentyn wedi syrthio ar fuarth yr ysgol a'r dagrau'n llifo, y gri bron bob tro ydi, 'Dwi isio mam'. Pan fo'r plentyn mewn unrhyw fath o wewyr, galw ar ei fam y mae o. Bum droeon wrth wely angau, ac yn aml iawn rwyf wedi clywed y claf yn dweud fod ei fam yn eistedd ar erchwyn y gwely neu 'mae mam wedi dod i'm nôl i'. Y fam, sylwer; nid y tad. Dyma'r berthynas glos, gynnes sydd wedi bodoli rhwng yr unigolyn a'i fam. Felly, mae Duw yn ei gariad mamol yn cysuro'i bobl, gan eu cymryd i'w freichiau a'u cofleidio, eu tawelu a sychu eu dagrau.

Symudwn ymlaen i'r Testament Newydd, at eiriau Iesu ei hun. Dyma'r geiriau a ddefnyddiodd pan oedd yn galaru dros ddinas Jerwsalem, 'Jerwsalem, Jerwsalem, tydi sy'n lladd y proffwydi ac yn llabyddio'r rhai a anfonwyd atat, mor aml y dymunais gasglu dy blant ynghyd, fel y mae iâr yn casglu ei chywion dan ei hadenydd, ond gwrthod a wnaethoch'

(Mathew 23:37). Mae hwn yn ddarlun ingol o gariad yn cael ei wrthod. Nid barnwr sy'n siarad, ond cariad sy'n erfyn ar ei bobl ei hun. Pa elfen ddaw i'r amlwg yn y geiriau hyn? Amynedd Duw. Mae'r ddinas wedi lladd y proffwydi ac wedi llabyddio negeseuwyr Duw, ond er hyn oll nid yw Duw wedi anghofio amdani. Fe anfonodd ei Fab ei hun i geisio argyhoeddi ei bobl. Gwelwn Iesu'n apelio ar ei bobl. Mae'n siarad fel un sy'n eu caru, a'r unig erfyn sydd ganddo yw apêl cariad. Mae'n sefyll, â'i freichiau ar led, gan geisio eu hargyhoeddi trwy ddefnyddio delwedd yr iâr yn gwarchod ei chywion. Pan fydd perygl ar y gorwel, bydd yr iâr yn cymell y cywion i ddod ati er mwyn iddi eu gwarchod yn ddiogel o dan ei hadenydd. Rhagwelai Iesu'r gyflafan a fyddai'n digwydd, 'ond gwrthod a wnaethoch'. Gwrthod Iesu.

Ar Sul y Fam, ystyriwn o'r newydd ddelweddau'r fam sy'n dangos ei thynnerwch, ei daioni, ei hamynedd a'i thrugaredd. Yn y gwter yn llythrennol y cafwyd hyd i John ryw fore Sul. Yn ôl yr heddlu, roedd dan ddylanwad alcohol ac amrywiol gyffuriau. Ar ôl ei holi yng ngorsaf yr heddlu, aethpwyd ag o adref. Roedd ei fam wedi bod ar ei thraed drwy'r nos yn gofidio amdano; a phan ddaeth cnoc ar y drws roedd hi'n ofni'r gwaethaf. Pan welodd ei mab yn sefyll wrth ochr y plismon gafaelodd yn dynn ynddo, ac meddai, 'Fy mab *i* ydi o, ac mi rydw i yn ei garu, lle bynnag mae o wedi bod a beth bynnag mae o wedi'i wneud'. Fedr Duw ddim gwneud dim llai.

Myfyrdod pellach:

Fyddech chi'n gallu gweddïo 'Ein Mam, yr hwn wyt yn y nefoedd'?

Ai nodweddion benywaidd yn unig yw 'trugaredd', 'cariad' a 'gofal'?